Trefniadau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

# Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

Mae Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru yn darparu arweiniad ar gyfer ymarferwyr sy'n ymwneud â diogelu ynghylch *sut* dylid gwneud pethau

## Cwestiynau Cyffredin

### Beth yw *Gweithdrefnau Diogelu Cymru*?

Mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* yn **adeiladu ar** ganllawiau statudol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, rhan 7 Diogelu, ac yn benodol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, cyfrolau 1, 4, 5 a 6. Ysgrifennwyd y Gweithdrefnau i **ddarparu arweiniad a disgwyliadau clir** ar gyfer diogelu oedolion a phlant.

Eu nod yw helpu **unrhyw un** sy'n gweithio gydag oedolion neu blant (pa un ai drwy waith â thâl neu heb dâl) i gymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau statudol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* i'w rolau a'u dyletswyddau drwy egluro **beth yw eu cyfrifoldebau** a **sut i gwrdd â nhw**.

Nodir bod “Diogelu yn fusnes pawb” yn glir yn y Gweithdrefnau, sydd hefyd yn egluro'r hyn sy'n ofynnol gan bobl mewn rolau penodol.

Mae'r Gweithdrefnau'n defnyddio iaith a thermau cyson.

### A yw hyn yn golygu bod *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* wedi ei diweddaru neu ei newid?

**Na -** nid yw'r ddeddfwriaeth wedi newid.

Mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* yn **diweddaru, cryfhau ac egluro'r gweithdrefnau** y mae'n rhaid i bawb eu dilyn; i sicrhau bod y rheoliadau hynny'n cael eu rhoi ar waith. Dylai ymarferwyr anelu at gael y canlyniadau gorau posibl i blant ac oedolion sydd mewn perygl, eu gofalwyr a'u teuluoedd, ledled Cymru.

### Sut cawsant eu datblygu?

Datblygwyd *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* drwy siarad a gwrando ar bartneriaid a grwpiau rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru. Mae hyn yn golygu bod newidiadau wedi cael eu harwain gan arfer da ond wedi eu llywio gan realiti gweithredol.

Arweiniwyd y broses hon gan **Fwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru**, a gadeiriwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mro Morgannwg ar ran Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg. Cwblhawyd drafft

cychwynnol pob adran gan yr Athro Emeritws Jan Horwath, cyn y gwnaed nifer o ddiwygiadau wedi eu llywio gan randdeiliaid ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau ac ymarferwyr y **Byrddau Diogelu Rhanbarthol**.

Bydd y Bwrdd yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i ategu'r gwaith o gyflwyno *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Mae angen i bob un o'r **Byrddau Diogelu Rhanbarthol** fabwysiadu'r Gweithdrefnau. Bydd y Gweithdrefnau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gan fwrdd y prosiect

## Pam mae angen gweithdrefnau?

Mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* yn sicrhau bod arferion diogelu yn **adlewyrchu canllawiau statudol yn gywir** ac yn cael eu **safoni** ar draws yr holl asiantaethau a ledled Cymru. Mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn* **disodli** *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi a Gweithdrefnau Dros Dro Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed rhag Camdriniaeth 2010 (a ddiweddarwyd yn 2013).*

## Ar gyfer pwy mae'r Gweithdrefnau?

Mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* yn darparu arweiniad i **unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion yng Nghymru**, pa un ai mewn rôl â thâl neu heb dâl; yn y sector statudol, y trydydd sector (gwirfoddol) neu'r sector preifat; ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu, cyfiawnder neu wasanaethau eraill.

## Beth maent yn ei gynnwys?

Mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* yn cynnwys:

2 adran i gwmpasu'r ystod oedran oes gyfan

- Gweithdrefnau sy'n benodol i blant
- Gweithdrefnau sy'n benodol i oedolion sydd mewn perygl

Ac 1 adran am weithwyr:

- Gweithdrefnau yn ymwneud â honiadau yn erbyn ymarferwyr

Mae'r adrannau'n darparu arweiniad clir ar:

- Egwyddorion diogelu
- Ymyrryd yn gynnar a chymorth
- Dyletswydd i roi gwybod
- Ymchwiliadau Cychwynnol ac Ymateb i Adroddiad, gan gynnwys amserlenni
- Gwneud Penderfyniadau
- Cynllunio ac Ymyriadau
- Gweithio trawsffiniol

A hefyd:

- Awgrymiadau ar gyfer arferion wrth weithio gyda phlant

- Awgrymiadau ar gyfer arferion wrth weithio gydag oedolion sydd mewn perygl
- Set o ganllawiau arferion ynghylch diogelu plant mewn amgylchiadau penodol

## Beth a faint sy'n wahanol?

Mae **arweiniad ac eglurder ar sut** i gymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau statudol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* i'ch rolau a'ch dyletswyddau. Gwneir hyn drwy egluro'n fwy trylwyr **beth yw cyfrifoldebau pawb** a **sut i'w cyflawni**.

Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- Amserlenni penodol sy'n ofynnol ar gyfer rhai gweithredoedd/tasgau
- Y derminoleg i'w defnyddio a'i deall yn gyffredin, fel yr eglurir yn yr eirfa yn y Gweithdrefnau,
- a'r ddealltwriaeth y bydd diogelu yn cael ei gyflawni yn unol ag ethos y Ddeddf; gan ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn dan sylw, ei hawl i lais, dewis ac eiriolaeth.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi yn fy rôl?

Dylai olygu eich bod chi’n hyderus i gyflawni eich rôl wrth ddiogelu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf:

- Sicrhau bod lleisiau unigolion a'r cwestiwn “beth sy'n bwysig” yn rhan o'r broses o ddiogelu.
- Defnyddio barn broffesiynol ymarferwyr i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer unigolion, mewn fframwaith lle mae arfer yn cael ei **safoni** rhwng asiantaethau ledled Cymru.

## Ymhle gallaf gael y Gweithdrefnau?

Bydd *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* ar gael yn hawdd ac yn rhwydd i gynifer o bobl â phosibl ledled Cymru.  Byddant ar gael mewn dwy ffordd:

- Yn ddigidol, ar lwyfan a gefnogir ar hyn o bryd gan Gofal Cymdeithasol Cymru www.diogelu/cymru
- Fel App am ddim ar gael ar gyfer Android ac iOs.

Bydd y ddau fformat yn caniatáu i chi ddod o hyd i'r wybodaeth neu'r arweiniad penodol sydd ei angen arnoch yn gyflym, pan fydd ei angen arnoch. Manylir ar wybodaeth mewn fformat clir a hygyrch.

Trefniadau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

## A ddarperir hyfforddiant?

Bydd darparwr a gomisiynir yn hyfforddi hyfforddwyr arweiniol o bob sector ym mhob ardal Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Yna bydd **sesiynau hyfforddi a gwybodaeth** wyneb yn wyneb ar gyfer pob ymarferydd **ledled Cymru yn gynnar yn 2020**. (Cysylltwch â'ch bwrdd diogelu rhanbarthol i gael rhagor o wybodaeth.) Ategir yr hyfforddiant hwn gan ddeunyddiau a ddatblygir yn genedlaethol. Bydd y deunyddiau hyn, a gomisiynwyd yn arbennig, yn cael eu nodi'n glir gyda’r brand hwn:

Trefniadau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

Bydd sesiynau hyfforddi ar gael i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, y rhai sy'n gweithio gydag oedolion sydd mewn perygl, ac fel fersiwn gyfun i'r rhai sy'n gweithio gyda'r naill a’r llall, ond yn ddelfrydol fe'u cyflwynir i gynulleidfa amlasiantaethol.

Bydd y deunyddiau hyfforddi ar gael i'r cyhoedd eu dosbarthu i'w timau staff. Dylid eu defnyddio hefyd ar gyfer diweddaru unrhyw becyn hyfforddi sy'n bodoli.

## A oes dyddiad swyddogol pan fydd *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* yn dod i rym?

Bydd yr amserlen fel a ganlyn:
Lansio’r Gweithdrefnau yn yr Wythnos Ddiogelu yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 11.11.19 mewn cynhadledd yng Nghaerdydd ac ar 14.11.19 mewn cynhadledd yn y Rhyl.

Mabwysiadu gan fyrddau rhanbarthol - Tachwedd i Ionawr 2020

Cyflwyno hyfforddiant - Ionawr 2020 ymlaen

Arweinir y gwaith gweithredu gan bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ond dylid ei gwblhau erbyn Ebrill 2020.

## A yw hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ailysgrifennu ein polisi / polisïau diogelu?

**Ni fu unrhyw newid** i'r **ddeddfwriaeth na'r canllawiau statudol** a amlinellir yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Gan hynny, os ydych chi wedi adolygu a diweddaru eich gweithdrefnau yn rheolaidd, ni ddylai fod angen iddynt newid.

Bydd y Gweithdrefnau yn darparu **rhagor o fanylion ac eglurhad** i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion ar eu ***harfer*** diogelu drwy egluro'n fanylach **beth**

**yw eu cyfrifoldebau** a **sut i'w cyflawni**. Mae'n bosibl y bydd angen adlewyrchu'r agwedd hon mewn polisïau diogelu, yn dibynnu ar eich gwasanaethau a'ch rolau staff.

## Gyda phwy allwn ni gysylltu os oes gennym unrhyw gwestiwn am y Gweithdrefnau?

Cewch hyd i'ch **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol**.